VOSA

Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr

Fel rhan o'r prawf MOT, bydd eich cerbyd yn cael ei brofi am allyriadau mwg.

Mae hyn yn helpu'r amgylchedd trwy leihau llygredd gymaint â phosibl a phrofi pa mor effeithlon yw cerbydau o safbwynt tanwydd. Mae hefyd yn eich helpu chi trwy sicrhau bod yr injan yn gweithio'n iawn ac yn lleihau gwastraff. Felly...

MOT

Ni ddylai prawf mwg disel eich gadael dan gwmwl!

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth

Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd

Sut y profir am allyriadau disel

Lluniwyd y prawf yn y fath fodd na ddylai achosi difrod i'ch injan. Bydd y profwr yn archwilio hanes cynnal a chadw eich cerbyd drwy ofyn rhai cwestiynau i chi. Rhaid i'r profwr wrthod profi eich cerbyd os yw'n credu y byddai'r prawf mwg yn achosi difrod i'ch injan.

Rhowch wybod i'r profwr os ydych yn credu y gallai'r prawf mwg achosi difrod i'ch injan.

I leihau'r posibilrwydd o ddifrod a chynyddu'r siawns o basio, dylech:

- gynnal a chadw eich cerbyd yn rheolaidd
- newid belt gyrru'r camsiafft ar yr adegau yr argymhellir
- gofalu bod injan eich cerbyd wedi cynhesu'n llawn cyn mynd ag ef i gael y prawf - bydd yn creu llai o fwg ac yn fwy diogel i'w brofi
- peidiwch â chwarae gyda gosodiadau dyfais mesur a rheoli cyflymder yr injan. Maent wedi eu gosod i sicrhau bod yr injan yn rhedeg yn effeithlon.

Nid oes gan yr orsaf brofi hawl i ofyn i chi lofnodi ymwadiad. Ond, gallwch lofnodi'r cerdyn hwn i ddweud eich bod wedi darllen ei gynnwys.

Y prawf

Ar ôl gwirio gwres yr olew i sicrhau bod yr injan yn gynnes, bydd y profwr yn cyflymu'r injan o segur hyd nes y bydd y ddyfais reoli'n torri i mewn hyd at 6 gwaith. Ni fydd eich injan yn cael ei rhedeg ar ei chyflymaf am gyfnod hir. Os ydych wedi bod yn cynnal a chadw eich injan, ni ddylai'r prawf achosi difrod i'ch injan.